NICE National Institute for Health and Care Excellence

# Llid y pancreas

5 Medi 2018

## *Llid y pancreas: y gofal y dylech ei ddisgwyl*

Mae llid acíwt y pancreas yn gyflwr sydyn a phoenus sy'n digwydd pan fydd y pancreas yn llidus. Er bod llawer o bobl yn gwella'n gyflym, mae tua 1 o bob 4 yn datblygu cymhlethdodau difrifol a all gynnwys haint y gwaed ac organau yn methu. Caiff llid y pancreas ei achosi gan gerrig bustl neu alcohol fel arfer, felly mae'n bwysig cael triniaeth a chymorth ar gyfer yr achosion sylfaenol hyn. Os nad yw'r llid yn gwella dros amser, gall arwain at niwed parhaol i'r pancreas, sef llid 'cronig' y pancreas. Caiff hyn ei achosi fel arfer gan yfed yn drwm yn rheolaidd dros sawl blwyddyn ond gall fod am resymau eraill hefyd. Mae llid cronig y pancreas yn gyflwr hirdymor sy'n cael effaith sylweddol ar ansawdd bywyd pobl.

Mae'r gofal i bobl sydd â llid y pancreas a'r ffordd y caiff ei ddarparu yn amrywio o ardal i ardal. Hoffem sicrhau y bydd y canllaw hwn yn gwneud gwahaniaeth i bobl â llid y pancreas drwy sicrhau'r canlynol:

- bod meddygon yn ymwybodol o'r triniaethau a'r profion sy'n gweithio orau fel bod pawb sydd â llid y pancreas yn derbyn y gofal cywir ni waeth ble maent yn byw
- bod pobl sydd â llid y pancreas yn derbyn gofal arbenigol pan fydd ei angen arnynt
- bod unigolion a'u teuluoedd yn derbyn gwybodaeth a chymorth da er mwyn deall llid y pancreas fel y gallant wneud dewisiadau ynglŷn â thriniaethau a newidiadau i'w ffordd o fyw i wella eu hiechyd
- bod timau gofal yn egluro pwysigrwydd cymorth parhaus ac apwyntiadau dilynol rheolaidd i bobl sydd â llid cronig y pancreas i'w helpu i aros mor iach â phosibl.

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

### *Gwneud penderfyniadau gyda'ch gilydd*

Caiff y penderfyniadau gorau ynglŷn â gofal eu gwneud ar y cyd. Dylai eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol roi gwybodaeth glir i chi, trafod eich opsiynau â chi a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Dylent hefyd wneud y canlynol:

- sicrhau eich bod yn deall y driniaeth ar gyfer llid y pancreas, gan gynnwys pam y gall fod yn fwy diogel oedi weithiau na'i drin ar unwaith
- egluro y gall y broses o wella yn dilyn achos difrifol o lid y pancreas fod yn araf a'i bod yn beth cyffredin teimlo'n waeth ar adegau – dylech gael gwybod gyda phwy y dylech gysylltu os byddwch yn teimlo'n ddifrifol wael
- cynnig cyngor a chymorth ar gyfer newidiadau i'ch ffordd o fyw megis rhoi'r gorau i yfed alcohol, smygu neu fwyta deiet iach
- dweud wrthych lle y gallwch gael mwy o wybodaeth a chymorth, gan gynnwys grwpiau cymorth lleol a chenedlaethol.

Os na allwch ddeall y wybodaeth a roddir i chi, dywedwch hynny wrth eich gweithiwr gofal iechyd proffesiynol.

Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

### *Ble y gallaf gael rhagor o wybodaeth?*

Mae gan NHS Choices ragor o wybodaeth am llid aciwt y pancreas a llid cronig y pancreas.

Gall y sefydliadau isod roi rhagor o gyngor a chefnogaeth i chi.

- Guts UK, 020 7486 0341
- Y Rhwydwaith Cefnogwyr Llid y Pancreas, 0794 997 3430

Nid yw NICE yn gyfrifol am gynnwys y gwefannau hyn.

Er mwyn rhannu profiad am ofal a gawsoch, cysylltwch â'ch tîm Gwarchod Iechyd lleol

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights

Lluniwyd y canllaw hwn ar y cyd â phobl y mae llid y pancreas wedi effeithio arnynt a staff sy'n eu trin a'u cefnogi. Mae'r holl benderfyniadau yn seiliedig ar yr ymchwil orau sydd ar gael.

ISBN: 978-1-4731-3084-5

© NICE 2018 All rights reserved. Subject to Notice of rights